Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

## Cwpanau a Gwellt Yfed Untro

18 Mai 2018

### Cais am wybodaeth

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 20 Ebrill, pan wnaethoch ofyn:

1. *Faint o gwpanau yfed untro brynodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mhob un o'r pum mlynedd ariannol ddiwethaf? 2013-14, 2014-15, 2015-16, 2016-17 a 2017-18*
2. *Faint o wellt yfed untro brynodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mhob un o'r pum mlynedd ariannol ddiwethaf? 2013-14, 2014-15, 2015-16, 2016-17 a 2017-18*
3. *Beth oedd y gost ar gyfer pob blwyddyn yng nghwestiwn 1?*
4. *Beth oedd y gost ar gyfer pob blwyddyn yng nghwestiwn 2?*
5. *Pa fesurau y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn eu cymryd i leihau ei ddefnydd o gwpanau a gwellt untro?*

At ddibenion cyflwyno, rydym wedi cyfuno cwestiynau 1 a 3 a 2 a 4. Gweler y wybodaeth isod.

**1. a 3. Nifer a chost y cwpanau yfed untro a brynwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod y pum mlynedd ariannol ddiwethaf.**

| Blwyddyn Ariannol | Nifer a brynwyd | Cost |
|---|---|---|
| 2013/14 | 116,150 | £4,014.14 |
| 2014/15 | 108,250 | £3,741.12 |
| 2015/16 | 128,300 | £4,434.04 |
| 2016/17 | 128,050 | £4,425.41 |
| 2017/18 | 139,050 | £4,805.57 |
| Cyfanswm | **619,800** | **£21,420.28** |

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

**2. a 4. Nifer a chost y gwellt yfed untro a brynwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod y pum mlynedd ariannol ddiwethaf.**

| Blwyddyn Ariannol | Nifer a brynwyd | Cost |
|---|---|---|
| 2013/14 | Dim gwybodaeth wedi'i chadw | Dim gwybodaeth wedi'i chadw |
| 2014/15 | 200 | £17.84 |
| 2015/16 | 288 | £13.70 |
| 2016/17 | 300 | £2.70 |
| 2017/18 | 340 | £7.55 |
| Cyfanswm | **1,128** | **£41.79** |

**5.** Rydym yn gweithio tuag at gael gwared ar gwpanau a gwellt yfed untro na ellir eu hailgylchu yn llwyr, erbyn Medi 2018.

Rydym yn gweithio gyda'n cyflenwr arlwyo i ddod o hyn i gwpanau dŵr y gellir eu compostio neu eu hailgylchu i gymryd lle'r cwpanau plastig untro a ddefnyddir ar hyn o bryd, a byddwn wedi gwneud y newid hwn erbyn Medi 2018.
Byddwn hefyd yn cynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth i annog staff ac ymwelwyr i ddefnyddio poteli y gellir eu hailenwi lle bynnag y bo modd, er mwyn helpu i leihau'r defnydd o gwpanau dŵr ger y ffynhonnau dŵr yn ein hadeiladau.
Mae ein defnydd o wellt plastig eisoes yn isel iawn ac rydym yn rhagweld y bydd hyn yn debygol o barhau, ond byddwn yn newid yn fuan i wellt papur.

Ystyriwyd eich cais yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.  Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF